| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **6 Mai 2025** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol / Helen Vaughan-Evans – Pennaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Helen Vaughan-Evans – Pennaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Robyn Lovelock – Rheolwr Mewnwelediad, Strategaeth a Chyflawni / Heidi Barton-Price, Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad** |
| **Teitl** | **Adolygiad y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol (Chwefror 2025)** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Y wybodaeth ddiweddaraf am Adolygiad mis Chwefror 2025 o'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol a Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor. Gweler yr atodiadau canlynol:

- Atodiad 1 - Crynodeb
- Atodiad 2 – Manylion llawn y Risgiau Corfforaethol hyd at fis Chwefror 2025
- Atodiad 3 - Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad adolygu'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor.

2.2 Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad adolygu Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor (Atodiad 3) fel rhan o'r adolygiad hwn.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystyried y diwygiadau a awgrymir i'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol ym mis Chwefror 2025 (Atodiad 2) ac yn trafod unrhyw ddiwygiadau eraill sydd eu hangen, yn cynnwys risgiau newydd.

3.2 Bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystyried statws pob risg a'r parodrwydd i'w derbyn (Atodiad 3), pa mor briodol yw perchnogion y risg a pha mor effeithiol yw'r rheoliadau.

## 4 Manylion yr adroddiad

4.1 Y Tîm Gweithredol Corfforaethol, ynghyd â'r Cabinet, sy'n datblygu'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol a nhw sy'n berchen arni hefyd. Cyflwynwyd yr adroddiad manwl blaenorol i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ym mis Tachwedd 2024.

4.2 Mae gan y Cyngor 14 o Risgiau Corfforaethol ar y Gofrestr ar hyn o bryd. Cynigir bod Risg 48 yn cael ei ostwng i lefel Gwasanaeth (gweler newidiadau sylweddol 4.6 isod), ni ychwanegwyd unrhyw risgiau newydd. Yna bydd gan y Cyngor 13 o Risgiau Corfforaethol ar y Gofrestr.

4.3 Dylid sicrhau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad bod y Tîm Gweithredol Corfforaethol wedi bod yn rhagweithiol o ran monitro Risg Corfforaethol ac wedi cymryd 'golwg manwl' ar y risgiau canlynol yn ystod 2024/25:

- Risg 1 - Y risg o wall diogelu neu ymarfer difrifol ble mae cyfrifoldeb ar y Cyngor, a fyddai'n arwain at niwed difrifol neu farwolaeth.
- Risg 13 - Y risg o dwyll a llygredd yn arwain at golli arian neu enw da ac o bosib yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth.
- Risg 34 - Y risg nad oes digon o ofal rheoledig.
- Risg 48 - Y risg bod problemau recriwtio a chadw staff yn arwain at golli arbenigedd a chapasiti, gan olygu perfformiad gwael neu annigonol.

4.4 Mae diweddariadau mis Chwefror 2025 wedi eu crynhoi ar ddechrau pob Risg yn y brif gofrestr (gweler Atodiad 2).

**Newidiadau sylweddol / “Golwg Manwl”**

4.5 Risg 21: Y risg nad yw integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rhwng BIPBC a Chyngor Sir Ddinbych yn datblygu ymhellach, mae’r Sgôr Risg Gweddilliol wedi cynyddu o C2 Posibl/Effaith Uchel i B2 Tebygol/Effaith Uchel yn unol â’r sefyllfa bresennol.

4.6 Yn dilyn “golwg manwl” y Tîm Gweithredol Corfforaethol ar Risg 48: Y risg bod problemau recriwtio a chadw staff yn arwain at golli arbenigedd a chapasiti gan olygu perfformiad gwael neu annigonol, cytunodd y Tîm Gweithredol Corfforaethol i ostwng y risg hwn o’r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol i lefel Gwasanaeth. Ystyriwyd ei bod yn fwy priodol i unrhyw faterion recriwtio a chadw gael eu gwerthuso a’u rheoli gan Benaethiaid Gwasanaeth, ar gyfer eu meysydd gwasanaeth trwy eu Cofrestr Risgiau Gwasanaeth (gan y bydd lefel y risg hwn yn amrywio rhwng gwasanaethau).

4.7 Bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn nodi y bydd newid o ran cynnal “golwg manwl” mewn sesiynau Tîm Arweinyddiaeth Strategol bob tri mis yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau cyfraniad ehangach gan y Gwasanaeth i “olwg manwl” ar risg. Bydd un sesiwn hefyd yn cynnwys ymarfer sganio gorwel risgiau yn allanol ac yn flynyddol.

4.8 Cynhaliwyd y “golwg manwl” UDA cyntaf (3 Ebrill 2025) ar Risg 14: Y risg o ddigwyddiad iechyd a diogelwch yn arwain at anaf difrifol neu golli bywyd. (pan gyfeirir at iechyd a diogelwch, mae hyn yn cynnwys diogelwch tân) a’r Sgôr Risg Cynhenid yn cynyddu o C2 Posibl/Effaith Uchel i B2 Tebygol/Effaith Uchel. Roedd y Sgôr Risg Gweddilliol yn aros yr un fath ar E2 Prin/Effaith Uchel.

4.9 Mae’r Cyng. Gwyneth Ellis wedi ei thynnu o Risgiau 12, 31, 48, 51, 52 a 53 fel Aelod Arweiniol ar gyfer y risgiau hyn gydag unrhyw uwchgyfeirio risg yn mynd i’r Cyng. Jason McLellan fel Arweinydd yn ystod y cyfnod dros dro.

4.10 Dylid sicrhau’r pwyllgor hefyd bod proses barhaus a manwl ar gyfer risgiau ariannol i sicrhau bod y risgiau hynny’n cael eu monitro trwy’r amser fel rhan o drafodaethau cyffredinol am y gyllideb.

**Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg**

4.11 Mae’r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg (Atodiad 3) wedi ei adolygu a’i ddilyn heb unrhyw gynigion i’w newid.

4.12 Mae saith risg (54%) yn parhau yn anghyson â Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor. (Risgiau 1, 21, 34, 45, 50, 51 a 52)

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Diben y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol yw amlygu digwyddiadau posib yn y dyfodol a allai gael effaith niweidiol ar allu’r Cyngor i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys ei flaenoriaethau corfforaethol. Mae’r camau rheoli a gweithredu dynodedig felly yn hanfodol i gyflawni Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae costau datblygu, monitro ac adolygu’r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol wedi’u cynnwys yn y cyllidebau cyfredol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1 Mae dogfennau’r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol yn nodi risgiau a’r camau lliniaru. Nid yw’r broses o ddatblygu ac adolygu’r ddogfen ei hun yn cael effaith niweidiol ar unrhyw un o’r nodau lles. Fodd bynnag, efallai y bydd angen cynnal asesiad o effaith ar les ar gyfer unrhyw broses, strategaeth neu bolisi newydd sy’n cael eu llunio o ganlyniad i gam lliniaru.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Ym mis Chwefror i Ebrill, cyn y Pwyllgor Craffu Perfformiad mae Perchnogion Risg y Tîm Gweithredol Corfforaethol (Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Corfforaethol) a’r UDA wedi cadarnhau cynnwys y Crynodeb Cofrestr Risgiau Gorfforaethol (Atodiad 1), neu fanylion unrhyw newidiadau sydd eu hangen i’r brif gofrestr (Atodiad 2).

8.2 Cynhaliodd yr UDA eu sesiwn “golwg manwl” cyntaf ar 3 Ebrill 2025 fel yr amlinellir uchod yn 4.8.

8.3 Roedd y Crynodeb Cofrestr Risgiau Gorfforaethol a ddosbarthwyd i Friffio’r UDA/Cabinet yn cefnogi’r gofrestr a ddiweddarwyd.

8.4 Cafodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Crynodeb o’r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol (Atodiad 1) er gwybodaeth ar 30 Ebrill 2025.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi wrth ddatblygu, monitro ac adolygu’r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â’r adolygiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau uwch swyddogion ac yn nodi bod rhaid i weithdrefnau a phrosesau clir fod yn eu lle i reoli risg yn effeithiol.

11.3 Mae Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi pwerau Craffu.